Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Llanilltud Fawr**

**Ysgol Dewi Sant**
**Ham Lane East**
**Llanilltud Fawr**
**CF61 1TQ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

07/07/2023

## Cylch Meithrin Llanilltud Fawr

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Llanilltud Fawr |
| Lleoedd cofrestredig | 30 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Yr arolygiad cyntaf yn dilyn cofrestru. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy. |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, mae ganddynt lais cryf a gallant wneud dewisiadau a phenderfyniadau'n annibynnol. Maent yn meithrin cydberthnasau cryf ac yn mynegi eu barn yn agored, gan wybod y bydd y staff yn gwrando arnynt. Maent yn mwynhau amrywiaeth o gyfleoedd diddorol dan do ac yn yr awyr agored, sy'n ennyn chwilfrydedd a diddordeb.

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn rheoli'r rhyngweithio â'r plant mewn ffordd gadarnhaol, ac maent yn fodelau rôl da. Mae'r staff yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad y plant ac yn diwallu eu hanghenion unigol yn dda iawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod diogelwch yr amgylchedd yn cael ei flaenoriaethu. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas dan do ac yn yr awyr agored, gydag amrywiaeth dda o deganau ac adnoddau ar gyfer oedran a chamau datblygu'r plant sy'n cael gofal.

Mae'r trefniadau arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymroddedig i wneud gwelliannau ac mae ganddynt weledigaeth gadarn ar gyfer y dyfodol. Maent yn adolygu ansawdd y gofal yn rheolaidd ac yn casglu barn y rhieni, staff a'r plant wrth wneud hynny. Mae'r partneriaethau â'r rhieni'n wych.

| Llesiant | Rhagorol |
|---|---|

Mae gan y plant lais cryf. Maent yn gwybod y bydd y staff yn gweithredu ar eu safbwyntiau a'u diddordebau ac yn eu parchu. Maent yn hunangofrestru ac yn defnyddio lluniau i gyfleu sut y maent yn teimlo. Mae'r plant yn hyderus wrth gyfathrebu â'i gilydd ac â'r staff. Er enghraifft, gofynnodd dau blentyn a oedd am baentio llun am bapur yn hyderus a gwnaethant gwblhau'r gweithgaredd o'u dewis.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac maent yn hapus yn y lleoliad. Maent yn ymdopi â bod ar wahân i'w rhieni neu ofalwyr yn dda, gan gyrraedd y lleoliad gyda gwen ar eu hwynebau. Wrth iddynt gyrraedd o'r ysgol, maent yn mynd yn syth i chwarae yn un o'r ardaloedd ac yn helpu eu hunain i'r adnoddau sydd o ddiddordeb iddynt. Mae'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac mae ganddynt ymdeimlad o falchder. Er enghraifft, roeddent yn gwenu wrth i'r staff eu canmol am osod eu heiddo ar y pegiau ac wrth iddynt ddefnyddio eli haul.

Mae'r rhyngweithio'n ardderchog. Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'r staff sy'n gyfarwydd iawn iddynt. Maent yn mynd at y staff yn hyderus i gael cymorth neu os ydynt angen sicrwydd. Er enghraifft, gwelsom blentyn a oedd wedi blino yn mynd at y staff i gael mwythau. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant yn gadarnhaol iawn hefyd ac maent yn meithrin cydberthnasau adeiladol. Maent yn sgwrsio'n naturiol wrth chwarae gyda chregyn yn y tywod ac yn trafod i ble roeddent yn mynd ar eu gwyliau.

Mae'r plant yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae a dysgu yn fawr iawn. Cânt lawer o hwyl wrth iddynt gyd-chwarae'n hapus gyda'i gilydd ar y llithren. Maent yn sgrechian yn gyffrous ac yn llongyfarch ei gilydd am gyrraedd y gwaelod. Mae'r plant yn chwilfrydig ac yn awyddus i ddangos i'r oedolion beth maent yn ei ddysgu. Er enghraifft, roedd rhai o'r plant eisiau dangos y car roeddent yn chwarae ag ef i ni ac roeddent yn sgwrsio’n hapus am y sŵn yr oedd yn ei wneud. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn awyddus i ymuno yn y sesiynau grŵp ac yn ymateb i gwestiynau gan yr oedolion yn ystod y gweithgaredd.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd rhagorol i ddatblygu annibyniaeth. Maent yn dewis pryd i fwyta byrbrydau ac yn defnyddio'r gefelau i helpu eu hunain, gan ddewis yr hyn maent am ei fwyta. Caiff y plant eu cefnogi i gwblhau gweithgareddau o ddydd i ddydd ar eu pen eu hunain. Maent yn defnyddio'r cyfleusterau toiled yn rhydd, gan olchi eu dwylo'n annibynnol ac yn tacluso ar ôl amser chwarae a chyn amseroedd bwyd. Maent yn naturiol yn ceisio gwneud pethau'n annibynnol cyn i'r staff ymyrryd, megis cau sipiau eu cotiau eu hunain a chasglu eu heiddo. Maent yn symud o amgylch yr ardaloedd dysgu yn hyderus, gan gael gafael ar adnoddau i gefnogi eu diddordebau. Er enghraifft, roeddent yn symud yr adnoddau er mwyn creu llwybr ac yn cael hwyl wrth gerdded a chydbwyso i'r pen.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig, gan eu galluogi i ddelio â mân ddamweiniau yn hyderus. Mae'r staff yn hybu bwyta'n iach drwy baratoi byrbryd iach dyddiol, a chynigir llaeth a dŵr i'w yfed. Maent yn cael hyfforddiant hylendid bwyd perthnasol ac yn dilyn gweithdrefnau glanhau cywir fel rhan o'r broses rheoli heintiau er mwyn helpu i gadw'r plant yn iach ac yn ddiogel. Mae'r rhai hynny sy'n paratoi byrbrydau ar gyfer y plant yn golchi eu dwylo ac yn defnyddio cyfarpar diogelu personol addas er mwyn paratoi bwydydd ac yn diheintio'r byrddau cyn amser byrbryd. Caiff gwiriadau amgylcheddol manwl eu cynnal yn ddyddiol gan y staff ac maent yn cofnodi'r trefniadau glanhau yn rheolaidd. Maent yn hyrwyddo llesiant corfforol y plant yn llwyddiannus drwy ymarfer corff rheolaidd, megis ioga a chwarae yn yr awyr agored. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o weithdrefnau amddiffyn plant a gwnaethant ymateb yn dda i'r senarios a drafodwyd yn ystod yr arolygiad. Maent yn ymwybodol o'r polisi diogelu a’u dyletswydd i roi gwybod am bryderon i'r swyddog diogelu yn ogystal â'u dyletswydd unigol i adrodd i dîm diogelu'r awdurdod lleol pe bai angen. Mae'r staff gofal yn cwblhau ymarferion tân a gaiff eu hamseru, eu gwerthuso a'u cwblhau oddeutu bob chwe mis. Fodd bynnag, nid ydynt yn cael eu cynnal yn ddigon rheolaidd er mwyn cynnwys bod pob un o'r plant sy'n mynychu'r lleoliad yn ystod y sesiynau a gynigir.

Mae'r staff yn deall y polisi rheoli ymddygiad yn llawn ac yn defnyddio technegau atgyfnerthu cadarnhaol yn gyson. Maent yn annog ac yn canmol y plant am dacluso a chyflawni eu nodau yn ystod amser chwarae yn gyson. Mae'r staff yn fodelau rôl rhagorol. Maent yn annog moesau da ac yn atgoffa'r plant i ddweud 'os gwelwch yn dda' a 'diolch' yn ystod amser byrbryd. Dengys y staff ddiddordeb yng ngweithgareddau'r plant wrth iddynt chwarae ac maent yn trafod tasgau mewn ffordd gefnogol a thawel. Maent yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r plant yn eu gofal. Mae'r rhyngweithio bob amser yn gynnes, yn ddiddorol ac yn dangos dealltwriaeth a charedigrwydd sensitif a gwirioneddol tuag at y plant.

Mae'r staff yn sicrhau mai'r plant sydd wrth wraidd eu dysgu eu hunain. Maent yn cefnogi penderfyniadau'r plant yn llawn, gan ganiatáu iddynt gael cyfleoedd i archwilio dan do ac yn yr awyr agored a dilyn eu diddordebau eu hunain. Mae'r staff yn goruchwylio cynnydd y plant ac yn asesu eu datblygiad er mwyn cynllunio ar gyfer eu camau nesaf ac i drefnu gweithgareddau sy'n bodloni eu diddordebau. Mae'r staff yn cefnogi anghenion ychwanegol y plant yn llawn ac yn darparu ar eu cyfer. Maent yn cymryd camau pwrpasol mewn modd amserol ac yn gwneud defnydd effeithiol o'r strategaethau i gefnogi'r plant. Mae'r plant yn mynd i'r ysgol gynradd Gymraeg ac mae'r staff yn sicrhau eu bod yn hyrwyddo'r Gymraeg bob amser. Mae llawer o'r staff yn llwyddo i drochi'r plant yn y Gymraeg mewn ffordd fedrus drwy ganeuon a straeon a thrwy weithgareddau â phwyslais penodol fel amser stori. Er enghraifft, mae'r staff yn hyrwyddo gallu'r plant i adnabod rhifau, lliwiau, emosiynau a geiriau mewn llyfrau stori.

## Yr Amgylchedd Da

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad systemau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae'r safle yn adeilad newydd sydd wedi'i leoli ar dir Ysgol Dewi Sant. Mae'r ymwelwyr yn cyrraedd drwy'r brif fynedfa a chaiff cofnod o'r ymwelwyr ei gadw. Rhaid i'r staff arwyddo i mewn ac allan o'r adeilad a rhoddwyd system ar waith ar gyfer cofnodi egwylion y staff yn ystod yr arolygiad. O ganlyniad, cedwir cofnod o'r rhai hynny sy'n gofalu am y plant bob amser. Mae'r staff yn sicrhau bod meddyginiaeth a deunyddiau glanhau yn cael eu storio'n ddiogel allan o gyrraedd y plant. Caiff asesiadau risg manwl a chadarn ar gyfer yr ardaloedd dan do a'r ardaloedd awyr agored eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r rhain yn llywio'r rhestrau gwirio dyddiol a gaiff eu defnyddio gan y staff i nodi risgiau i'r plant ac i'w dileu cymaint â phosibl. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gweithio gyda'r ysgol a'r awdurdod lleol i gwblhau'r holl waith cynnal a chadw ar yr adeilad ac i wasanaethu cyfleustodau a chyfarpar.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd sydd wedi'i gynllunio a'i osod i hyrwyddo eu hannibyniaeth ac i'w hannog i ddysgu. Mae'r ardaloedd chwarae yn tanio dychymyg y plant yn eithriadol o dda ac yn eu galluogi i gymryd risgiau, fel cyrraedd y caban pren gan ddefnyddio wal ddringo a theithio ar hyd llwybrau. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r plant feithrin eu sgiliau yn llwyddiannus. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu cyfleusterau sy'n galluogi'r plant i ddefnyddio'r toiled a'r basnau golchi dwylo yn annibynnol. Mae'r rhain, yn ogystal â'r cyfleusterau newid cewynnau yn sicrhau urddas y plant ac yn parchu eu preifatrwydd. Ceir ardal gysgu addas ei darparu gan y staff ar gyfer y plant drwy ddefnyddio rhaniadau bach i rannu ardal yn y brif ystafell. Maent yn arsylwi'r ardal yn fanwl ac yn aros yn yr ystafell i fonitro'r plant sy'n cysgu. Mae'r plant yn cysgu ar fatiau ac yn defnyddio blancedi unigol. Mae'r staff yn sicrhau bod yr ardaloedd dan do a'r ardaloedd awyr agored yn cael eu trefnu'n bwrpasol er mwyn darparu amrywiaeth eang o brofiadau ysgogol sy'n annog y plant i symud o un gweithgaredd i'r llall yn effeithiol. Er enghraifft, mae cyfleoedd i'r plant dyfu llysiau ac yna eu coginio.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr adnoddau o ansawdd da. Mae'r dodrefn, cyfarpar a'r teganau yn briodol, o safon uchel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae amrywiaeth o adnoddau yn cael eu cadw ar lefel y plant ac ar gael iddynt. O ganlyniad, mae'r plant yn gyfarwydd iawn â'r weithred o nôl cyfarpar a'i ddychwelyd i'r lleoedd priodol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod cyfleoedd i'r plant gael gafael ar adnoddau sy'n gwella eu creadigrwydd, eu sgiliau iaith a'u chwilfrydedd megis llyfrau Cymraeg, posau, pecynnau adeiladu, adnoddau chwarae byd bach ac adnoddau creadigol. Mae'r ardal awyr agored yn ddiogel ac yn cynnig cyfleoedd i'r plant fod yn greadigol, i ddatblygu'n gorfforol, ac i chwarae rôl. Hefyd, caiff datblygiad personol a chymdeithasol y plant ei annog yn dda gan fod teganau a llyfrau amlddiwylliannol ar gael iddynt.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth **Da**

Mae trefniadau arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad yn dda. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymgysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) mewn modd amserol. Maent yn sicrhau bod y datganiad o ddiben yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol ac yn cyrraedd y safonau gofynnol cenedlaethol. Mae polisïau a gweithdrefnau addas ar waith. Fodd bynnag, nid yw'r polisi meddyginiaeth yn adlewyrchu'r arferion presennol a'r ffurflenni a ddefnyddiwyd, ac nid oes polisi na gweithdrefn gorffwys a chysgu ysgrifenedig ffurfiol ar waith. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod cofnodion y plant yn cael eu cadw a'u llofnodi gan y rhieni. Mae'r rhain yn cynnwys contractau, caniatadau, ffurflenni gwybodaeth ac anghenion unigol.

Mae'r broses hunanwerthuso yn adlewyrchu ac yn nodi cryfderau yn ogystal â meysydd i'w gwella gan ystyried barn eraill. Mae'r rhai sy'n gyfrifol am redeg y lleoliad yn gwbl ymrwymedig i ddatblygu ac roeddent yn croesawu'r arolygiad fel rhan o'u proses hunanwerthuso a'u gwaith cynllunio ar gyfer gwella. Maent yn barod i dderbyn adborth ac yn cymryd camau dilynol mewn perthynas â'r materion a godir.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn gweithdrefnau recriwtio cadarn. Maent yn sicrhau bod digon o staff cymwysedig i ofalu am y plant a bod y gymhareb rhwng yr oedolion a'r plant yn cael ei chynnal, neu'n rhagori, bob amser. Maent yn sicrhau bod y staff yn cwblhau cymwysterau gorfodol a bod gan bob aelod o'r staff dystysgrif Datgelu a Gwahardd gyfredol. Maent yn cynnal cyfarfodydd goruchwylio ac arfarnu rheolaidd ac yn cynllunio ar gyfer datblygiad y staff. Er enghraifft, maent yn cefnogi rhai aelodau o'r staff i ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol ac i ddatblygu yn eu rolau. Maent hefyd yn cynnal cyfarfodydd llesiant staff yn rheolaidd. Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus iawn yn gweithio yn y lleoliad a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda iawn gan yr arweinwyr, sy'n hawdd mynd atynt.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad gysylltiadau cryf iawn gyda'r ysgol. Maent yn sicrhau bod gweithdrefnau a phrotocolau clir ac effeithiol ar waith ar gyfer trosglwyddo a rhannu gwybodaeth sydd o fudd i'r plant. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bolisi a gweithdrefn gwyno ar waith er na dderbyniwyd unrhyw gwynion. Mae'r partneriaethau â'r rhieni, gofalwyr a rhanddeiliaid eraill yn rhagorol. Mae'r rhieni'n canmol y lleoliad yn fawr ac yn gadarnhaol iawn am y bobl sy'n rhedeg y lleoliad, y staff a'r gofal y mae eu plant yn ei gael. Dywedodd llawer o'r rhieni wrthym eu bod o'r farn bod y staff wedi diwallu anghenion unigol eu plant a bod eu plant yn hapus iawn wrth fynychu'r lleoliad.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 24 - Diogelwch | Sicrhau bod y plant yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau gwagio'r adeilad oherwydd tân drwy gynnwys pob plentyn yn yr ymarferion. |
| Safon 11 - Meddyginiaeth | Adolygu'r polisi meddyginiaeth a sicrhau bod y ffurflenni yn adlewyrchu'r arferion presennol. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Datblygu polisi a gweithdrefn gorffwys a chysgu ysgrifenedig ffurfiol. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 30/08/2023